

136)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Zoom nos Lun Ionawr 18ed 2021 — 7.30pm

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Annette Davies,E.Jones,M.Griffiths,H.Lewis,G.Jones,V.Davies,D.Davies,
Y.Griffiths,B.Cobain,S.Mason

Ymddiheuriadau(apologies): M.Evans,Arwel Davies.

Clerc:Anita Evans Heddlu/police: neb

Cyfarfod is-bwyllgor cyllid am 7.15 i drafod y ffigurau,a phenderfynnu faint o braecept sy angen am 2021—
22.Trafodwyd y sefyllfa ariannol,ac fe benderfynnwyd gofyn am £49,000 fel y llynedd;cynnig H.Lewis,eilio
E.Jones.The finance sub-committee agreed to ask for the same amount of praeccept as last year £49,000.The main
Council will be advised.

Cyfarfod Ionawr:

1)Cadeiriwyd gan Annette Davies.Nodwyd presennoldeb ac ymddiheuriadau.Chairman A.Davies welcomed all.

2)Datgan diddordeb—neb/no declaration of interest by Councillors.

3)Dim Heddlu wedi ymuno.Clerc wedi anfon neges oddiwrth ddeiliad Heather Bank,Llan'el yn gofyn am glustog
cyflymder,gostwng y cyflymder o 40 i 30mya,a gofyn am bresennoldeb fan Go Safe ar y darn ffordd mas o Lan'el tuag
at Llanllwni.Atebodd PCSO Shanice Thomas;nid yw'r Heddlu yn gallu helpu gyda un o'r rhain,ond yn cyfeirio'r
unigolyn at gysylltu a Go Safe ei hunan.D.Davies yn dymuno dweud wrth yr Heddlu am ddrygioni yn y dug out ar y
cae chwarae—mae swyddog o'r Heddlu wedi addo cadw llygad ar y lle.

No police officer joined this meeting.Clerc has contacted the police on behalf of inhabitant of Heather Bank,Llan'el
regarding her worries re road traffic speed,and requesting a reduction from 40 to 30mph,a speed cushion and
presence of Go Safe van.Unfortunately Police can't act on her behalf,and suggest contacting the Co.Council.D.Davies
has reported misbehaviour at the playing field dug out;the Police have promised to keep a watch on the area.

4)Cofnodion mis Tachwedd: cafwyd yn gywir/Nov.minutes found to be correct:prop.Y.Griffiths;sec.B.Cobain

5)Materion y Clerc/Clerk up-dates:

a)M.Murray(C.Sir Gâr)wedi postio arwyddion i Fferm Cwmhwplyn Pencader i'w helpu i sicrhau fod cerddwyr yn cadw
at y llwybrau,nid cerdded dros gaeau/M.Murray(footpaths)has posted signs for Cwmhwplyn Farm where the farmer
has had problems with ramblers not adhering to the correct paths.

b)Mae'r 3ydd defibrillator wedi ei osod ar wal y Milfeddygon ym Mhontweli/The 3rd defibrillator has been placed on
Tysul Vets wall in Pontweli.Eirian Jones has registered it,and we thank him for taking this responsibility.

c)Derbyniwyd dwy neges oddiwrth ein cyfreithwyr i ddweud nad ydynt wedi clywed nôl o'r adran gyfraith(C.Sir
Gar)er mwyn i ni gymeryd gofal o Gyfleusterau Pencader,ac ar ôl eu hatgoffa'n ddiweddar,maent yn dweud nad
ydynt yn gallu cael ymateb o Landysul.Correspondence between our solicitors and the Co.Council have hit
problems.This is regarding our intentions to adopt the Public Convenience site in Pencader.

137) (5)-Materion y Clerc/Clerk updates:

ch)Ymateb oddiwrth yr Adran Briffyrdd yn dilyn ein cwynion diweddera:

i)cerrig a sbwriel ar dro'r ysgol yn New Inn/Cyclic gang will clear pavement near N.Inn school.

ii)pont Gwyddgrug/bridge—a different department will be informed re this narrow bridge.

iii)Arwyddion brwnt yn ein Plwyf/when staff are available they will clean the dirty road signs in our Parish.

iv)Dŵr yn aros ar wyneb y ffordd sy newydd gael ei gwella ar bwys Windy Corner/standing water on the road near W.Corner—the team will inspect.

v)Gor-dyfiant coed o dir Llwyn,Pencader/overhanging trees from Llwyn Farm/officers will inspect.Mae'r Cyngor wedi trafod y broblem yma a chysylltu â'r Cyngor Sir am sawl blwyddyn—a dim yn gwella.On-going problem.

vi)Dŵr o'r graig—ffordd fewn i Bontweli—ar ôl i'r Cyngor yma gwyno am dros 3 mlynedd,dywedodd E.Jones y dylai swyddogion y gwahanol adrannau o fewn y C.Sir gyfathrebu'n well,ac fe gynnigiodd fod llythyr swyddogol yn mynd at y prifweithredwr,W.Walters,yn datgan ein cwynion,a'n gofidiau;eiliodd H.Lewis.Following years of corresponding with Carm.Co.Council regarding the water cascading off the rocks onto the main road going into Pontweli,this Council has decided to send an official complaint to the Chief Executive,W.Walters,explaining our complaints and worries.E.Jones proposed,H.Lewis seconded.

6)Cyfrifon/finances: derbyniwyd y fantolen/found to be correct—prop.M.Griffiths,Sec. E.Jones.

Biliau i'w talu/bills to be paid:cyflogau/wages: £1,953.47;Gareth Davies(lap top):£30.00;GDPR licence: £40.00;

Archwilio Cymru(Audit):£333.50.Pasiwyd eu talu:prop.M.Griffiths,sec.S.Mason.

7)Cynllunio/planning:

Cais am dŷ 3 stafell wely—drws nesa i Brynhyfryd,Pencader.B.Cobain yn cynnig fyddai 2 stafell wely yn fwy derbyniol.Eiliodd Y.Griffiths.Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Adran Gynllunio.Proposed 3 bed.dwelling land adjacent to Brynhyfryd,Pencader.B.Cobain proposed 2.bed.would be acceptable,and Y.Griffiths seconded.The Clerk will contact.

8)Gohebiaeth/Correspondence: C.Sir Gâr/C.Co.Council:

1)Llythyr yn gofyn am swm y Precept/requesting Precept for 2021-22.Yn dilyn yr is-bwyllgor cyllid,rhodddwyd y swm gytunwyd gerbron y Cyngor llawn/following the finance sub-committee's proposal to ask for £49,000,the full Council was advised.The sum was found acceptable,and passed;V.Davies proposed,and G.Jones seconded.Councillors agreed.

2)Cau hewl Gwyddgrug am 2 ddiwrnod/closure of Gwyddgrug road for 2 days 9.00 am to 3pm—4/02/21

2a)Nodyn T.Williams fod y gweithwyr yn mynd nol i Bontweli(wythnos dechrau 10/12) i orffen gwaith ar y graig B4336.Esbioniodd be sy wedi neud ar bwys Pengraigwen--gwaith atgyweirio draeniad .Nid yw'r C.Sir wedi newid unrhyw ddraeniad yn yr ardal —run trefniant wedi bod ar waith ers o leia 1996.Info.from C.Council—staff to return to Pontweli w/b 10/12 to make further improvements where water runs down the rocks.It is emphasised that nothing has changed with the drainage works above since 1996.(following questions asked by this Council).

3)Diolch/thanks for donations from:C.FF.I.(Young farmers Carms),Gofal mewn Galar(Cruse),Noah's Ark,Cerebral Palsy.

4)D.Wyatt ar ran ACA(Alltwalis)yn egluro'r sefyllfa pe bai'r gymdeithas yn dod i ben.Fe fyddai'r asedau yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor Cymuned,ond ni fyddai'r Cyngor yn gyfrifol am ddyledion.Gan fod y Gymdeithas wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn grant oddiwrth y 2 fferm wynt,cynnigiodd E.Jones ein bod yn gofyn a oes amodau i'r grantiau,ac os oes, hoffai'r Cyngor yma weld y dogfennau.Eiliodd M.Griffths.D.Wyatt from Alltwalis Community Association has corresponded to explain that if the ACA came to an end,the assets would go to the Comm.Council.(the hall would be sold back for the price paid of £25,000 to the Co.Council).Since the ACA has been successful in applying for a grant from both wind farms,this Council will ask for any information regarding conditions tied up with these grants.

5)GDPR—data protection --£40 is due for the annual licence.

6)Ffens y C.Chwarae--E.Jones wedi anfon manylion --fe'u derbyniwyd:H.Lewis yn cynnig,B.Cobain yn eilio.Bydd y gwaith yn cael ei hysbysebu yn Clecs/facebook.E.Jones has sent specifications for improvement to the Play Corner fence in Pencader.They were accepted by the Council,and the work will be advertised.

.....
9)UFA/AOB (Councillors info.only)

H.Lewis---a)palmant Maesderwennydd,a Bro Gwen yn llawn cerrig mân/chippings strewn on the pavements at Maesderwennydd,and Bro Gwen—will be reported to Highways.b)gofyn a oes angen caniatâd cynllunio ar estyniad o flaen Farmers/does the extension in front of Farmers need planning permission?c)nid yw 9 Marshlands wedi cael golau stryd newydd/extra street light has not been installed outside 9,Marshlands as we requested.ch)Tawelan – carafan yn cael ei defnyddio i storio bwyd anifeiliaid-- nid yw'n gartref i berthnasau'r Teulu/Tawelan caravan is not in use as an overspill for family members—so why is it there?Many people are asking why had this caravan been installed here when it encroaches on a road that is narrow,very near a bend.

D.Davies—coed top rhiw Alltwalis/trees at the top of Alltwalis hill look dangerous,and need inspecting.

M.Griffiths—a)gwteri hewl Penybont yn llawn/drains are full of sludge here,and need urgent cleaning;b)un golau stryd rhwng Morris Tce. a Phlygyrhiw ddim yn gweithio/street light has fused here;c)wrth droi am Bontweli o Lan'el mae arwydd y pentre wedi pylu,ac mae angen un Newydd/the village sign into Pontweli from the by pass has faded,and a new one is needed.

G.Jones—a)gwter ar bwys Pontfaen wedi bloco;b)llyn yn cronni ar yr hewl wrth fynd mas i'r ffordd fawr o Glantweli Fach;c)arwyddion wedi troi ar bwys Tynewydd a Phanteg,Pencader/drains and gullies need clearing on the Glantweli Fach road/road signs need attention near Tynewydd,and Panteg,Pencader.

Clerc---a)person yn y Plwyf wedi cysylltu i ddweud fod blwch postio ar bwys Eglwys Llan'el wedi diflannu/the post box near the church in Llan'el has disappeared;b)gofynnodd am rif pendant i fynychu angladdau yn y 2 Fynwent,oherwydd fod ymgymerwyr yn holi yn ystod y clo...penderfynnwyd ar uchafswm o 15 yn Alltwalis,ac 20 ym Mhencader,cynnigiwyd gan E.Jones,ac eiliodd G.Jones.Gofynnir i'r trefnwyr angladdau fod yn gyfrifol,a sicrhau fod rhif y galarwyr yn cadw at ein rheolau/the Clerk requested a maximum no.of mourners to attend funerals in the 2 Cemeteries under our care.Councillors agreed on a maximum no.of 15 in Alltwalis,and 20 in Pencader—proposed by E.Jones,and seconded by G.Jones.Undertakers will be asked to adhere to these rules.

Gorffennwyd 9.05 meeting ended.